**Report No. 16/19**
**Audit & Corporate Services Review Committee**

**REPORT OF THE CHIEF EXECUTIVE**

---

**SUBJECT: IMPROVEMENT PLAN CERTIFICATE**

The Authority received the Improvement Plan Certificate from the Wales Audit Office.

The Certificate confirms that the Authority has discharged its duties in accordance with the requirements of section 15(6) to (9) of the Local Government (Wales) Measure 2009 (the Measure). A copy is included as Annex A.

Members are asked to note this report

**Recommendation: Members are asked to NOTE and COMMENT on this report**

*(For further information, please contact Tegryn Jones, tegrynj@pembrokeshirecoast.org.uk)*

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

**Cyfeirnod:** 1426A2019-20

**Dyddiad y'i cyhoeddwyd:** Gorffennaf 2019

# Archwiliad o Gynllun Gwella Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2019-20

## Tystysgrif

Rwyf yn ardystio fy mod i wedi archwilio Cynllun Gwella Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ar ôl ei gyhoeddi ar 29 Ebrill 2019, yn unol ag adran 17 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau dan adran 15(6) i (9) y Mesur a'i fod wedi ymddwyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

Dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau o ran y canlynol:

- gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion gwella; a
- gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau mewn modd sy'n sicrhau ei fod yn bodloni unrhyw safon o ran perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl unrhyw ddyddiad arall a bennir trwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac yn gyfrifol am y wybodaeth a geir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol dan adrannau 17 ac 19 y Mesur i mi gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod i wedi gwneud hynny ac adrodd ynghylch a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a eglurir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o’r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, os yw awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, y bydd hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw’n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch pa mor gyflawn neu gywir yw’r wybodaeth, nac ynghylch a oes modd cyflawni’r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ymgymryd ag ef dan adran 18 y Mesur yn ystyried y materion hynny. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella’r Cyngor yn cynnwys adolygu’r cynllun er mwyn gweld a oedd yn cynnwys yr elfennau a bennir mewn deddfwriaeth. Euthum ati hefyd i asesu a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi’r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Nid yw’r gwaith yr wyf i wedi’i gyflawni er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 y Mesur yn waith y gellir dibynnu’n gyfan gwbl arno i nodi pob gwendid neu bob cyfle i wella.



**Adrian Crompton**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

CC: Julie James AC – Gweinidog dros Dai a Llywodraeth Leol

Nick Selwyn – Rheolwr

Huw Rees – Cyfarwyddwr Archwilio Perfformiad